2025 - 2026

# RHODDION A LLETYGARWCH

**CYNGOR CAERDYDD**

**CANLLAWIAU I YSGOLION**

**RHODDION A LLETYGARWCH**

## 1 CYFLWYNIAD

1.1 Sefydlodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 God Ymarfer ar gyfer staff sydd wedi'i ymgorffori yng nghyfansoddiad y Cyngor. Bernir yn ôl y gyfraith fod telerau'r Cod wedi'u hymgorffori yng nghytundeb cyflogaeth pob un o gyflogeion cymwys y Cyngor, hynny yw pob cyflogai ac eithrio athrawon. Dylai staff a gyflogir gan y Cyngor fod yn ymwybodol o ofynion y Cyngor ar gyfer cofnodi rhoddion a lletygarwch a dderbynnir yn bersonol, a chydymffurfio â'r rhain (ar gael ar system CIS dan y cyfeirnod 1.CM.070).

1.2 Mae athrawon wedi'u rhwymo i'r Cod Ymddygiad ac Arfer Proffesiynol ar gyfer Athrawon Cofrestredig, sy'n cynnwys y gwerthoedd bywyd cyhoeddus a osodwyd gan Bwyllgor Nolan. Dan y Cod diwygiedig, rhaid i athrawon cofrestredig gydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau a chanllawiau mewn perthynas â'r defnydd o eiddo, cyfleusterau, cyllid a TGCh yr ysgol. Mae'r polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau yn cynnwys y rheini a gyhoeddir yn genedlaethol gan ysgol, awdurdod lleol neu awdurdod esgobaethol.

1.3 Nodir rheoliadau ar gyfer derbyn rhoddion a lletygarwch yn y Rheolau Gweithdrefn Ariannol i Ysgolion, ac mae'r canllawiau hyn yn ategu'r rheolau hynny. Diben cynnwys y canllawiau yw annog dull cyson o dderbyn rhoddion a lletygarwch, ac i weithredu'n unol ag arfer da cydnabyddedig. Dylai unrhyw swyddogion sydd am wneud trefniadau amgen geisio cyngor a chymeradwyaeth gan y Rheolwr Archwilio a Risg.

1.4 Ni fydd staff ysgol (ac eithrio'r rheini a gyflogir gan y Cyngor) ond yn derbyn unrhyw rodd neu letygarwch gyda chymeradwyaeth y Pennaeth/Corff Llywodraethu. Dylai Llywodraethwyr geisio cymeradwyaeth gan y Prif Swyddog Addysg. Lle y bo'n bosibl, dylid ceisio cymeradwyaeth cyn derbyn.

1.5 Dylai'r ysgol greu cofrestr rhoddion a lletygarwch. Dangosir enghraifft yn Atodiad A, ac argymhellir dechrau cofrestr newydd ar gyfer pob blwyddyn academaidd. Prif nod y gofrestr yw sicrhau eglurder o ran unrhyw roddion a lletygarwch a geir, fel nad oes sail ar gyfer amau penderfyniadau'r ysgol o ganlyniad i ddylanwad rhoddion/lletygarwch. Os na fydd yr ysgol yn derbyn unrhyw letygarwch neu roddion mewn blwyddyn academaidd, dylid rhoi croes drwy'r gofrestr a nodi "dim".

1.6 Yn unol â Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2001, rhaid i'r Corff Llywodraethu gynnwys manylion yn yr

adroddiad blynyddol i rieni ar "ddefnyddio unrhyw roddion a wnaed i'r ysgol".

## 2 DIFFINIADAU

2.1 "Lletygarwch a geir" – unrhyw adloniant y tu hwnt i gynnig diodydd di-alcohol a lluniaeth ysgafn y gellid ei ystyried yn rhesymol yn ymgynulliad cymdeithasol arferol a gynigir i athro neu swyddog yn yr ysgol yn ei gapasiti swyddogol neu yn rhinwedd ei ddyletswyddau fel athro neu gyflogai'r ysgol. Gall lletygarwch gynnwys (ymysg pethau eraill) prydau bwyd, cyfleoedd teithio, aros mewn gwesty, gwahoddiadau i ddigwyddiadau, tocynnau chwaraeon a theatr.

2.2 "Rhodd" – unrhyw eitem ddiriaethol a roddir i aelod o'r staff addysgu neu gymorth (gan gynnwys y Pennaeth) sy'n deillio o'i ddyletswyddau swyddogol a'i rôl yn yr ysgol.

2.3 "Lletygarwch a gynigir" – unrhyw letygarwch, rhoddion neu fuddiannau eraill a gynigir i sefydliadau neu unigolion.

2.4 "Buddiannau eraill" – unrhyw fudd arall a gynigir i aelod o'r staff addysgu neu gymorth yn rhinwedd ei ddyletswyddau swyddogol neu sy'n deillio ohonynt, nad yw wedi'i gwmpasu gan y diffiniadau o "Roddion" neu "Letygarwch" uchod.

2.5 "Dibwys" – eitem fechan isel ei gwerth, megis calendr, pen, bocs bach o siocled neu eitem hyrwyddo fechan.

## 3 GWEITHDREFNAU

3.1 Ni ddylai Llywodraethwyr, Penaethiaid na chyflogeion dderbyn rhoddion personol sylweddol gan gontractwyr neu gyflenwyr allanol. Er mwyn diogelu staff ac enw da'r Cyngor rhag cyhuddiadau o lwgrwobrwyo neu lygredd, ni chaniateir i staff, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, dderbyn unrhyw rodd, lletygarwch, gwobr neu fudd arall o unrhyw ffynhonnell (gan gynnwys sefydliadau, myfyrwyr a chyflogeion eraill) na chysylltu neu gadw mewn cysylltiad ag unigolion yn rhinwedd y dyletswyddau y cânt eu cyflogi gan y Cyngor/Esgobaeth i'w cyflawni yn unig.

3.2 Nid yw'n bosibl disgrifio'r holl sefyllfaoedd lle gallai rhwymedigaethau amhriodol godi. Er enghraifft, dylid gwrthod lletygarwch, rhoddion neu fuddiannau nad ydynt yn ymddangos yn briodol gysylltiedig â'r Cyngor (gallai enghreifftiau gynnwys cynnig o wyliau preifat neu'r defnydd o lety gwyliau, rhoddion personol o werth sylweddol neu fuddiannau eraill a gynigir i gyflogeion yn rhatach o gryn dipyn na'r pris y byddent fel arfer yn cael eu cynnig i'r cyhoedd).

3.3 Dylid gwrthod lletygarwch rheolaidd a mynych gan yr un person neu sefydliad, yn yr un modd â lletygarwch a gynigir lle byddai'r Cyngor

neu’r cyflogai yn unig westai ar achlysur sy’n breifat yn ei hanfod. Ni ddylid ond derbyn cynigion i fynychu digwyddiadau cymdeithasol neu chwaraeon pan fo’r rhain yn rhan o fywyd y gymuned neu lle dylai'r ysgol/Cyngor gael ei ch/gynrychioli.

Mae’r canlynol yn eithriadau:

(a) rhoddion achlysurol a ystyrir yn ddibwys a lle bo’r gwerth nominal a geir gan unrhyw berson dan £25, fel

- Dyddiaduron
- Calendrau
- Pennau
- Rhoddion cymharol rad gan unigolion (fel rhieni neu blant) i fynegi diolch.

Cydnabyddir ei bod yn fwyfwy cyffredin i grwpiau o rieni ddod ynghyd i brynu rhodd. Gellir derbyn rhoddion gwerth hyd at £100 fesul dosbarth. Dan amgylchiadau eithriadol, gall Pennaeth gymeradwyo eitemau gwerth hyd at £150, ond rhaid cofnodi'r gymeradwyaeth yn y gofrestr.

Lle caiff rhoddion o'r fath eu derbyn yn rheolaidd o ffynonellau amrywiol, caniateir iddynt gael eu casglu a'u cynnwys mewn raffl i godi arian i elusen. Mae hyn yn dderbyniol ar yr amod bod y Pennaeth yn cytuno i dderbyn cyfrifoldeb am sicrhau bod digwyddiadau o’r fath yn cael eu gweinyddu’n briodol.

(b) lletygarwch confensiynol, e.e. cinio gwaith mewn ymweliadau swyddogol, lle bo amlder a chyfanswm cost y lletygarwch yn rhesymol. Hefyd, ni fyddai arsylwr diduedd yn ystyried bod lletygarwch o’r fath yn effeithio ar benderfyniadau'r cyflogai o ran y gwaith y caiff ei gyflogi i'w wneud. Dylai fod yn glir fod y lletygarwch a geir yn gorfforaethol ei natur, yn hytrach na phersonol. Yn aml bydd y math hwn o letygarwch corfforaethol yn cael ei roi gan yr ysgol hefyd. Dylai cyflogeion sy’n amau natur, amlder neu werth unrhyw letygarwch neu fudd o’r fath gael awdurdodiad ysgrifenedig eithriadol gan y Pennaeth/Cadeirydd y Llywodraethwyr cyn derbyn y lletygarwch neu fudd. Nid yw’n bosibl diffinio ‘rhesymol’, a rhaid i gyflogeion ddefnyddio eu disgresiwn. Mewn achosion o letygarwch corfforaethol, disgwylir fel arfer y byddai unrhyw letygarwch gwerth mwy na £25 yn cael ei atgyfeirio am awdurdodiad.

(c) lle bo rhodd neu fudd mwy gwerthfawr yn cael ei gynnig y gallai'r ysgol yn gyffredinol fanteisio ohono, yn hytrach na chyflogai unigol, bydd y penderfyniad i dderbyn yn cael ei wneud yn ôl disgresiwn y Pennaeth a dylai gael ei atgyfeirio at y Corff Llywodraeth.

(ch) achlysurol lle bo angen i’r ysgol gynnig lletygarwch i sefydliadau neu unigolion. Dylai trefniadau o’r fath gael eu gwneud gan y Pennaeth neu Gadeirydd y Llywodraethwyr.

3.4 Gall rhoddion dinesig drud neu unigryw gan, er enghraifft, ymwelwyr tramor gael eu derbyn ar ran y Cyngor a byddant yn parhau'n eiddo i'r Cyngor.

3.5 Rhaid i staff sy'n gyfrifol am brynu cyflenwadau, offer, gwasanaethau neu gomisiynu contractwyr gymryd gofal penodol i sicrhau na ellir honni bod triniaeth anghyfartal wedi'i rhoi i gyflenwyr a oedd yn rhan o brosesau tendro drwy dderbyn rhoddion neu fuddiannau eraill.

3.6 Ni ddylai unrhyw swyddogion sy'n benodol gyfrifol am gymeradwyo contractau dderbyn unrhyw roddion neu letygarwch gan unrhyw gontractwr y gallai fod ganddo ddiddordeb mewn contractau o'r fath.

3.7 Ni ddylai Llywodraethwyr, Pennaeth na chyflogeion ysgol fanteisio'n bersonol ar unrhyw ostyngiadau a gynigir i'r Cyngor gan ei gyflenwyr/contractwyr oni bai bod y Cyngor wedi gwneud trefniadau arbennig i bob cyflogai. At hynny, ni ddylai llywodraethwyr na staff ysgol dderbyn unrhyw gynigion i fanteisio'n bersonol o'r trefniadau hynny a allai fod wedi'u gwneud yn seiliedig ar eu rôl.

3.8 Dylai staff bob amser gadw mewn cof yr angen i beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gallai aelod o'r cyhoedd, disgybl/rhiant neu sefydliad y maent yn delio â nhw ei dehongli i feddwl y gallent gael eu dylanwadu gan unrhyw rodd, budd neu ymddygiad i ddangos ffafriaeth neu anffafriaeth i unrhyw berson neu sefydliad mewn perthynas â'r gwaith y maent yn cael eu cyflogi i'w wneud. Os bydd aelod o staff yn ansicr ynghylch addasrwydd derbyn unrhyw rodd neu letygarwch, rhaid i'r cyflogai drafod â'r Pennaeth. Os oes gan y Pennaeth amheuaeth, dylid trafod â Chadeirydd y Llywodraethwyr.

3.9 Eiddo'r Cyngor yw unrhyw gynigion hyrwyddo a gynigir gan gyflenwyr i gyflogeion sy'n gyfrifol am brynu nwyddau.

3.10 Pan fydd yn rhaid gwrthod lletygarwch, dylid rhoi gwybod i'r sawl sy'n gwneud y cynnig yn gwrtais ond yn gadarn am y gweithdrefnau a'r safonau sydd ar waith yn y Cyngor.

3.11 Pan dderbynnir rhodd, ond na chaiff ei awdurdodi i'w dderbyn, dylid ei roi yn ôl i'r rhoddwr.

## 4 DEDDF LLWGRWOBRWYO 2010

4.1 Daeth Deddf Llwgrwobrwyo 2010 i rym ym mis Gorffennaf 2011, ac mae'n berthnasol i bob busnes a sefydliad, waeth beth fo'i faint o ran niferoedd neu swyddfeydd neu gyflogeion. Mae'r Cyngor yn cymryd ei gyfrifoldebau dan y Ddeddf o ddifrif.

4.2 Er nad oes diffiniad o lwgrwobrwyo yn y Ddeddf, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ei chanllawiau yn ei ddiffinio fel 'rhoi mantais ariannol neu fel arall i rywun i annog y person hwnnw i gyflawni ei swyddogaethau neu weithgareddau yn amhriodol neu wobrwyo'r

person hwnnw am fod wedi gwneud hynny eisoes. Gallai hyn gynnwys ceisio dylanwadu ar benderfyniad drwy roi rhyw fath o fudd ychwanegol i'r unigolion sy'n gwneud y penderfyniad y tu hwnt i'r hyn y gellir ei gynnig yn ddilys fel rhan o'r broses dendro.' Nid oes yn rhaid i lwgrwobrwyo gynnwys arian parod neu daliad; gall fod ar sawl ffurf, gan gynnwys rhodd neu docynnau i ddigwyddiad, ond nid yw lletygarwch ei hun wedi'i wahardd dan y Ddeddf.

4.3 Mae'r Ddeddf yn creu troseddau a all gael effaith drom ar ysgolion. Mae pedair trosedd newydd wedi'u creu gan y Ddeddf.

(i) cynnig, addo neu roi llwgrwobr;
(ii) ceisio, cytuno i dderbyn, neu dderbyn llwgrwobr;
(iii) llwgrwobrwyo swyddog cyhoeddus tramor i ennill neu gadw busnes (Adran 6); a
(iv) methu ag atal llwgrwobrwyo (Adran 7) lle byddai gweithredu polisïau a gweithdrefnau clir ac ymarferol wedi amddiffyn rhagddo.

4.4 Gall rhai gweithgareddau gael eu hystyried yn droseddau dan y Ddeddf.

## 5 METHU Â CHYDYMFFURFIO

5.1 Gall cyflogeion nad ydynt wedi gweithredu'n briodol dan y polisi uchod gael eu disgyblu ac, mewn achosion difrifol, gellid trin hyn fel camymddwyn difrifol.

5.2 Mae'n drosedd i swyddog mewn ysgol dderbyn yn llygredig unrhyw gymhelliad neu wobr am wneud, addo gwneud neu beidio â gwneud unrhyw beth yng nghwrs ei gyflogaeth, neu ddangos ffafriaeth neu anffafriaeth lygredig wrth drin contractau. Drwy weithredu'n llygredig, byddai'r swyddog yn dangos ei fwriad i weithredu heb gywirdeb ar bwrpas gan beidio ag ystyried goblygiadau ei weithredoedd.

Pennaeth:

Dyddiad:26.09.25

Cadeirydd:

| | |
|---|---|
| Fersiwn: | 3.0 |
| Dyddiad Adolygu: | Hydref 2026 |